Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Goleg Plas Dwbl

## Dyddiad yr arolygiad:  Gorffennaf 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/09/2017**

## Cyd-destun

Agorodd Coleg Plas Dwbl, sy'n rhan o Grŵp Ymddiriedolaeth Ruskin Mill, ym Medi 2011. Mae'n goleg arbenigol annibynnol preswyl a dydd ar gyfer pobl ifanc sydd ag ystod o anawsterau dysgu, gan gynnwys anhwylder y sbectrwm awtistig, anhwylder gorfywiogrwydd a diffyg canolbwyntio ac anhwylderau ymlyniad.

Mae'r coleg wedi'i leoli ar fferm ar droed mynyddoedd y Preseli yn Sir Benfro. Mae'r tir yn cynnwys tir pori, coetir a gerddi helaeth ar gyfer garddwriaeth. Mae 11 o ddysgwyr rhwng 18 a 25 oed yn mynychu'r coleg ar hyn o bryd. Mae llawer o ddysgwyr yn byw yn nhai preswyl y coleg sydd wedi eu lleoli yn y pentrefi lleol.

Mae'r coleg yn seilio ei hathroniaeth addysgol ar egwyddorion sefydlu'r athronydd a'r gwyddonydd, Rudolph Steiner. Mae'n cynnig cwricwlwm addysg therapiwtig medrau ymarferol, sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr ddysgu trwy weithgareddau bywyd go iawn. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys ystod eang o sesiynau ymarferol yn y gweithdy, yr efail, y fferm a'r gegin.

Arolygwyd y coleg ddiwethaf ym mis Mai 2015. Ers yr arolygiad craidd, mae tîm arweinyddiaeth newydd ar waith, sy'n cynnwys pennaeth, pennaeth cynorthwyol, pennaeth addysg a phennaeth gofal preswyl.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae pob un o'r dysgwyr yn foesgar a chwrtais â staff, ymwelwyr ac â'i gilydd. Mae llawer o ddysgwyr yn siarad am eu gwaith a'u bywyd yn y coleg gyda hyder a balchder, ac mae eu hymddygiad o gwmpas y coleg yn eithriadol o dda.

Mae dysgwyr yn ymateb yn frwdfrydig iawn i'r cwricwlwm teilwredig unigol a hyblyg a gynigir. Maent yn ymgysylltu'n arbennig o dda yn eu sesiynau ac mae eu cyfraddau presenoldeb yn gyson uchel.

Mae gan y coleg systemau hynod effeithiol ar gyfer gwrando ar safbwyntiau dysgwyr, a gweithredu yn unol â nhw. Er enghraifft, caiff dysgwyr eu cynnwys yn llawn mewn cynllunio ac adolygu eu llwybrau dysgu personol. Mae'r cyfranogiad hwn yn helpu i sicrhau bod cyrsiau'n gweddu'n addas i anghenion, galluoedd a diddordebau dysgwyr.

Mae dysgwyr yn ymateb yn gadarnhaol i'r pwyslais cryf y mae'r coleg yn ei roi ar y dimensiwn Cymreig, er enghraifft pan fydd staff yn eu hannog, lle bo'n briodol, i ddysgu ac ymarfer eu medrau Cymraeg yn yr agweddau eang a gwahanol ar fywyd y coleg.

Mae gan y coleg gysylltiadau defnyddiol â'r gymuned, sy'n cyfoethogi'r profiadau dysgu a gynigir. Mae'r cysylltiadau hyn yn cynnwys dysgwyr yn mynychu lleoliadau

gwaith allanol yn y ganolfan hamdden leol, yr eglwys leol neu'r oriel gelf. Mae'r profiadau hyn yn rhoi dealltwriaeth gadarn i ddysgwyr o fyd gwaith a gwnânt gyfraniad gwerthfawr at eu datblygiad personol a chymdeithasol.

## Meysydd i'w datblygu

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi cyflwyno cylch ffurfiol o arsylwadau sesiynau a theithiau dysgu yn y coleg. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar ansawdd yr addysgu, yr amgylchedd dysgu ac iechyd a diogelwch. Mae'r adborth yn cynnwys crynodeb defnyddiol o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella ar gyfer tiwtoriaid unigol. Fodd bynnag, nid yw'r arsylwadau'n canolbwyntio ar y cynnydd a wna dysgwyr mewn sesiynau, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd.

Mae dysgwyr yn meddu ar ddealltwriaeth addas o brif gryfderau'r coleg a'i feysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, ni chaiff y rhain eu hadlewyrchu'n llawn yn yr adroddiad hunanasesu na chynllun gwella ansawdd y coleg. At ei gilydd, nid yw'r adroddiad hunanasesu yn canolbwyntio'n ddigon da ar safonau.

Mae arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o ansawdd yr addysgu yn y coleg. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i diwtoriaid a chynorthwywyr cymorth dysgu arsylwi a rhannu arfer dda ar draws y coleg a thu hwnt wedi'u datblygu'n ddigonol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod arsylwadau sesiynau yn canolbwyntio'n briodol ar y cynnydd a wna dysgwyr yn eu sesiynau, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd

A2 Cynyddu cyfleoedd i bob un o'r staff arsylwi a rhannu arfer dda

A3 Mireinio'r prosesau hunanasesu i gynnwys arfarniadau penodol o gynnydd dysgwyr yn ystod sesiynau, a'u cyflawniad cyffredinol

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwella prydlondeb dysgwyr wrth fynychu sesiynau**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi rhoi ystod o strategaethau defnyddiol ar waith i wella prydlondeb dysgwyr yn y coleg. Er enghraifft, mae'r trefniadau a sefydlwyd yn ddiweddar ar gyfer cludiant i'r coleg yn y bore yn gosod arferion defnyddiol ar gyfer dysgwyr preswyl. Mae'r sesiwn cwrdd a chyfarch ffurfiol ar ddechrau'r dydd yn galluogi pob un o'r staff i hyrwyddo pwysigrwydd prydlondeb yn llwyddiannus gyda dysgwyr.

Yn ystod y dydd, mae arweinwyr i'w gweld o gwmpas y coleg amser egwyl ac amser cinio. Mae'r dull hwn yn cael effaith gadarnhaol ar annog dysgwyr i fynychu eu sesiynau cynlluniedig yn annibynnol ac yn brydlon, yn enwedig ar ôl cinio. Mae arweinwyr yn monitro prydlondeb dysgwyr yn ofalus ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fedrus i dargedu dysgwyr sy'n hwyr i sesiynau yn barhaus yn ystod y dydd. O ganlyniad, bu gwelliant cyson ym mhrydlondeb pob un o'r dysgwyr dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Argymhelliad 2: Darparu mwy o gyfleoedd i ddysgwyr weithio mewn grwpiau**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r coleg wedi cyflwyno cyfleoedd buddiol i ddysgwyr weithio gyda chyfoedion a staff mewn grwpiau bach. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwrando'n ofalus ar ei gilydd ac yn ymateb yn briodol i safbwyntiau pobl eraill. Er enghraifft, maent yn gweithio'n llwyddiannus gyda'u cyfoedion mewn parau a grwpiau bach i gwblhau tasgau fel ail-lenwi'r cyflenwad llysiau yn y siop fferm. Maent yn cymhwyso'r medrau cyfathrebu a chymdeithasol hyn yn llwyddiannus hefyd mewn gweithgareddau fel nosweithiau pizza yn eu cartrefi preswyl.

Yn ddiweddar, bu llawer o ddysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus i berfformio eu fersiwn eu hunain o A Midsummer Night's Dream gan Shakespeare, y gwnaethant ei pherfformio yng ngholegau eraill Ruskin Mills. Mae'r profiadau gwerthfawr hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hunanhyder dysgwyr, eu gallu i uniaethu â'i gilydd a'u perthnasoedd personol o fewn y coleg. Dros gyfnod, mae bron pob un o'r dysgwyr yn dod yn llai dibynnol ar gymorth oedolion.

**Argymhelliad 3: Sicrhau bod yr holl staff yn rhoi amser i ddysgwyr gwblhau tasgau mor annibynnol ag y bo modd**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r cwricwlwm ym Mhlas Dwbl wedi'i seilio ar broses tri cham sydd wedi'i diffinio'n glir. Mae pob cam yn annog dysgwyr i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a datblygu synnwyr o hunanwerth a hyder trwy ddysgu medrau ymarferol. Ceir ffocws clir ar

ddatblygu annibyniaeth dysgwyr ac mae tiwtoriaid yn cofnodi eu cynnydd yn erbyn gwahanol agweddau ar eu dysgu, gan nodi lefel y cymorth sydd ei hangen.

Mae staff wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant defnyddiol ar y broses tri cham.  Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r angen i ddysgwyr ddatblygu eu hannibyniaeth er mwyn eu paratoi ar gyfer bywyd yn y dyfodol.  Yn ystod eu cyfnod yn y coleg, mae llawer o ddysgwyr yn ymateb yn gadarnhaol i'r cymorth a'r arweiniad a gynigir gan staff ar ddechrau'r sesiwn.  Maent yn gwneud cynnydd da ac yn gweithio'n annibynnol mewn gweithgareddau fel cynaeafu'r gerddi, paratoi cinio a glanhau'r gegin.

**Argymhelliad 4:  Gwella'r broses o ddefnyddio a dadansoddi data i lywio cynllunio strategol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae arweinwyr yn casglu ystod eang o ddata ar les a chynnydd dysgwyr yn erbyn y broses ddysgu tri cham a gyflwynwyd yn y coleg.  Maent yn dechrau dadansoddi'r wybodaeth hon yn briodol i lywio cynllunio.

Mae arweinwyr yn cynnal dadansoddiad trylwyr o ddata presenoldeb ac ymddygiad bob tymor, a defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i roi strategaethau cymorth defnyddiol ar waith.  Er enghraifft, mae dadansoddi digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad wedi galluogi dysgwyr i nodi tueddiadau mewn digwyddiadau heriol, a pha adeg o'r dydd y maent yn digwydd.  Mae hyn wedi arwain at newidiadau wrth grwpio dysgwyr ac i'w rhaglenni unigol.

Fe wnaeth dadansoddi data mewn perthynas â lles ac addysgu yn ddiweddar nodi'r angen am therapydd lleferydd ac iaith, a chyflogwyd un o ganlyniad.  Mae'r mewnbwn arbenigol hwn yn galluogi'r coleg i fireinio'r rhaglenni dysgwyr unigol ymhellach i fodloni anghenion emosiynol, ymddygiadol a dysgu cymhleth ychydig iawn o ddysgwyr.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am y coleg

| | |
|---|---|
| **Coleg** | Coleg Plas Dwbl |
| **Rhif y coleg** | F0006004 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 10/07/2017 |
| **Perchennog** | Ymddiriedolaeth Ruskin Mill |
| **Staff** | Pennaeth 1, Pennaeth Addysg 1, Pennaeth Preswyl 1, Pennaeth Cynorthwyol 1, Tiwtor 8, Tiwtor Medrau Hanfodol 1, Cynorthwyydd Dysgu 6, Gweithiwr Cymorth yn ystod y dydd 1, Gweinyddwr 1, Cyfanswm y staff 21 |
| **Nifer y dysgwyr** | 11 |
| **Darpariaeth** | 3 myfyriwr yn ystod y dydd am 36 wythnos ac 8 myfyriwr preswyl am 36 wythnos |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r coleg yn darparu ar ei gyfer** | Anhwylder y sbectrwm awtistig, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd ac anhwylderau ymlyniad |
| **Arolygiad llawn diwethaf** | 04/05/2015 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 04/05/201504/05/2015 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 13/03/2017 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Ms Margaret Elisabeth Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Caroline Rees | Arolygydd Tîm |